

Elin Dafydd Evans

2404354

Learning in the Digital Era ADPA4001/C

Reflective Essay - Component 1

Ar yr ail o Ragfyr gaethom Weithdy canu gyda Kiefer ac Iwan, i mi gredaf mai hwn yw'r wers fwyaf defnyddiol gefais gyda chanu. Dwi'n meddwl ei fod wedi bod yn beth da cael gwers gydag Iwan a Kiefer ar yr un adeg. Gan yn aml mae'n gallu bod yn eithaf dryslyd cael gwers gyda Kiefer ac yna'n mynd i Iwan gan ei bod nhw'n gweithio mewn ffyrdd hollol wahanol. Ond hefyd, mi oedd yn ddefnyddiol cael fy nghyfeillion yno hefyd, gan ei bod nhw'n gallu rhoi ei barn nhw ar y perfformiadau a sut mae'n dod dros i'r gynulleidfa.

Canais 'O Holy Night' gan ein bod wedi bod yn gweithio ar ganeuon Nadolig yn ddosbarth perfformio gydag Eilir. Ar ôl canu gefais adborth gan Kiefer, Iwan a fy nghyfeillion. Y pwynt gyntaf gefais oedd bod y tafluniad 'projection' fy llais wedi cryfhau a gwella. Ar gychwyn y tymor mi roedd tafluniad fy llais yn eiddof gwan ond ar ôl gweithio ar hyn gydag Iwan a Kiefer credaf fy mod wedi cymeryd yr awgrymiadau a wir drio gwella ac mae'n amlwg ei fod wedi cael effaith da ar y llais. Un pwynt a ddaeth gan fy nghyfeillion oedd y ffaith bod fy amseru yn dda ac yn dod yn naturiol i mi, credaf fod hyn oherwydd fy mod i bob tro wedi bod o amgylch cerddoriaeth yn ifanc. Adborth arall gefais gan fy nghyfeillion a Kiefer oedd bod fy nhafod mewn lleoliad da ar y 'belt', unwaith eto bu hyn yn rhywbeth rwyd wedi bod yn gweithio ar ers cyrraedd cychwyn tymor.

Ni roeddwn wedi sylwi faint o ddifrod gall canu gyda fy nhafod mewn lleoliad anghywir yn gallu gwneud, y rheswm nes i ddim sylwi oedd oherwydd dyma sut roeddwn wedi bod yn canu erioed a ddim yn gwybod dim gwahanol. I gyd fynd a'r 'belt' cefais nodyn gan fy nghyfeillion bod fy angori yn dda arno a fy mod i yn wir yn fy ngwthio fy hun er mwyn ei gael o. Rhywbeth arall rwyf wedi bod yn gweithio yn unigol a hefyd gydag Iwan a Kiefer yw fy llais cymysg 'mix' mae hwn yn rhywbeth dwi wedi bod yn gweithio ar ers tipyn cyn dod i'r Brifysgol ond credaf fod Iwan a Kiefer wir wedi fy helpu i ddatblygu hyn - er efallai ei fod ddim yn berffaith eto dwi'n gwybod ei fod yn datblygu yn gyson.

Yn symyd ymlaen cefais hefyd bwyntiau ac awgrymiadau o bethau i wella. Un peth sydd wedi bod yn amlwg yn fy llais er cychwyn yn y Brifysgol ydi'r ffaith bod yr aer yn cario dros fy llais. Rwyf wedi bod yn gweithio ar y 'Vocal Folds Closure' ac yn dal i glywed felly awgrym gan Kiefer yw adio sŵn crio ar i ben, yn aml dwi'n clywed bod hyn yn gweithio ac yn helpu i gau'r 'Vocal Folds'. Ar y llaw arall, weithiau bu adio sŵn crio ddim yn gweithio a fy ddywedodd Kiefer yn y Gweithdy mai ella na'r gair ydi'r broblem a'i bod nhw yn rhy agored. Wrth ganu 'O Holy Night' mi roedd aer yn dod dros y gair 'Fall' pob tro, felly mi wnaeth Kiefer i mi ganu'r diwn eto ond ar 'moo' neu 'ng' a bu yn gweithio hefyd i atal yr aer o ddod dros y canu. Nodyn arall am yr aer yn dod drosodd oedd gweithio dros y Nadolig oedd y cynhesrwydd yn fy llais neu ar fy mrest 'chest' ac mi wnaeth Kiefer wneud i mi bwyso lawr fy mrest er mwyn cael y cynhesrwydd hwn. Mi welais fod y pwyso lawr ar fy mrest yn gweithio yn dda er mwyn mi gael yr effaith hyn ar y llais. Fel enghraifft mi wnaeth ofyn i mi wyllo clyweliad Cynthia Erivo ar gyfer 'Wicked'. Wrth wyllo hi'n canu 'Defying Gravity' ac yn mynd am y 'riff' ar y diwedd rydych yn gallu gweld ei brest hi'n mynd lawr a dyna'n union dwi angen i fy helpu gyda stopio'r aer ddod drosodd ond hefyd er mwyn cael cynhesrwydd ar y

frest. Awgrym arall gefais oedd adio fwy o stamp fy hun ar y gân, bron fel ei bod hi'n gân allan o Sioe Gerdd.

Ar ran fy nghyfraniad i ar gyfer y wers mi wnes hi helpu fy nghyfeillion wrth roi adborth yn ôl iddynt ond wrth ei canmol nhw hefyd. Am amser hir roeddwn i yn meddwl bod rhai pethau er enghraifft aer yn dod dros y llais yn digwydd i mi, ond fe wnaeth y Gweithdy fy helpu i sylweddoli ei fod yn digwydd i bawb a dim bod rhywbeth yn bod gyda fy llais. Credaf fod y Gweithdy wedi helpu nifer eraill i sylweddoli bod rhywbeth fel hyn yn bethau arferol sydd yn digwydd i'r llais, neu helpu iddynt sylweddoli ei bo hi'n iawn ei bod heb gael ei llais cymysg eto. Hefyd, rhywbeth dwi wedi dysgu sydd yn bwysig ar gyfer gwersi fel hyn yw dod a cherddoriaeth gyda mi a'i wedi tapio er mwyn dod i'r arferiad hyn er mwyn mynd i glyweliadau yn y dyfodol felly mi wnes i hyn ar gyfer y wers hon.

Ar ôl y wers hon, es i yna wedyn i wneud ychydig o ymchwiliad fy hun, y peth cyntaf es i i ymchwilio ar oedd 'projection' y llais a sut i wneud hyn heb wneud difrod i'r llais. Drwy hyn, dysges fod tafl'r llais yn cael ei wneud llawer gyda'r diaffram ac yn defnyddio llawer o aer. Yna es i ati i droi'r ymarferion ar y wefan a'u gweld yn ddefnyddiol iawn i mi.

"If your diaphragm is not doing the work of creating volume, your vocal cords are – something has to do the work. If you keep yelling, your throat will start to feel sore. Projection has a depth to the sound. It tends to have a slightly deeper pitch and a rounder, more complex sound. Yelling sounds flat with a higher pitch."

Price, L. (no date) *Projecting Your Voice Without Yelling*, [www.theatrefolk.com](http://www.theatrefolk.com).

Ynghyd a hyn mi es i at i i ymchwilio ar yr aer sydd yn dod dros fy llais a chau'r 'vocal folds'. Ar ôl gweithio ar y gân efo Kiefer ac yna ymchwilio ychydig mi nes i sylweddoli mai weithiau oherwydd y gair mae'r aer pob tro am ddod trwodd.

"Statistical analysis showed that only resonance on /m/ significantly improved VFC compared with habitual phonation. All other phonation modes and techniques, except low-pitched phonation, led to a significant worse closure in comparison with the closure at normal pitch. The glottic closure observed by low-pitched phonation was not significantly different than the closure at habitual pitch. Interrater agreement was moderate to very good, depending on the mode of phonation."

Esling, J.H. *et al.* (2019) *Voice quality : the laryngeal articulator model*. Cambridge, United Kingdom ; New York, Ny: Cambridge University Press.

I gloi, mi wnes i weld y Gweithdy hwn yn ddefnyddiol iawn, yn aml mae gallu mynd o un wers gyda Kiefer i wers gydag Iwan yn gallu bod yn ddryslud, dwi'n deall ei bod nhw'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol ond bu'n braf cael gwers gyda'r ddau ar yr un pryd er mwyn iddynt allu neidio oddi ar ei gilydd am argymhellion. Byswn yn hoff o allu gwneud hyn yn fwy aml gan fy mod yn credu ei fod wedi gallu bod o ddefnydd i bawb yn BA Perfformio a BA Theatr Gerddorol.

Llyfryddiaeth

Price, L. (no date) *Projecting Your Voice Without Yelling*, [www.theatrefolk.com](http://www.theatrefolk.com).

Esling, J.H. *et al.* (2019) *Voice quality : the laryngeal articulator model*. Cambridge, United Kingdom ; New York, Ny: Cambridge University Press.